Cyngor sir ddinbych
denbighshire County Council

# Talu am eich gofal mewn cartref gofal

## Mawrth 2023

# Talu am eich gofal mewn cartref gofal

## Cynnwys


Asesu eich anghenion 2

Talu am gartref gofal 2

Os oes gennych chi gynilon ac asedau sydd werth mwy na £50,000 2

Beth sy’n digwydd os bydd raid i mi dalu’r gost yn llawn? 3

Beth os ydw i’n dewis cartref sy’n ddrutach? 3

Beth sy’n digwydd pan mae fy nghynilon a’m hasedau’n disgyn yn is na £50,000? 3

Beth sy’n digwydd os oes gennyf gynilon ac asedau sydd werth llai £50,000? 4

Sut mae’r asesiad ariannol yn cael ei gynnal? 4

Cyfrifo ar gyfer asesiad preswyl 4

- Cynilon ac asedau 5
- Incwm 5
- Isafswm incwm 5

Beth os ydw i’n berchen ar eiddo? 6

- Diystyru eiddo am ddeuddeg wythnos 6
- Y Cynllun Taliadau Gohiriedig 6
- Y Cytundeb Taliadau Gohiriedig 7
- A oes unrhyw gostau ynghlwm â Chytundeb Taliadau Gohiriedig? 7

Budd-daliadau a ffioedd cartref gofal 7

Ffioedd atodol 8

- Talu’r ffi atodol 8

Cyngor ariannol annibynnol 9

Costau gofal nyrsio 10

- Gofal Nyrsio wedi’i ariannu 10
- Gofal iechyd parhaus 10
- Ffioedd gofal a'r Ddeddf Iechyd Meddwl 10

Cysylltiadau defnyddiol 11

- Gwybodaeth cyffredinol 11
- Gwybodaeth am y cyfrifiad asesiad ariannol a gwybodaeth am daliadau 11
- Gwybodaeth a chyngor am hawlio budd-daliadau y gallech fod â hawl iddynt 11

# Talu am eich gofal mewn cartref gofal

## Asesu eich anghenion

Cyn y gallwn bennu faint fyddwch yn ei dalu am eich gofal, mae angen i ni weithio gyda chi i asesu'ch anghenion. Mae hyn yn cynnwys siarad gyda chi, eich gofalwr os oes gennych chi un, a phobl eraill sy'n gwybod am wahanol agweddau eich bywyd fel eich iechyd corfforol, eich iechyd emosiynol, sut rydych yn ymdopi â gofalu amdanoch chi eich hun ac aelodau'r teulu ac eraill sy'n eich cefnogi ar hyn o bryd. Gallai ein sgwrs gyntaf gyda chi fod wyneb yn wyneb, dros y ffôn, yn ddigidol neu drwy'r post.

Yn rhan o gynllunio eich gofal a'ch cymorth, byddwn yn cael sgwrs gyda chi i ddarganfod beth sydd bwysicaf i chi rŵan a beth fydd bwysicaf i chi yn y dyfodol i'ch cadw'n iach a diogel. Yn hytrach na gofyn 'beth sy'n bod arnoch chi?' byddwn yn gofyn 'beth sy'n bwysig i chi?' er mwyn canfod beth yn union sy'n bwysig i chi. Rydym eisiau cynnal y sgwrs gywir er mwyn gallu dod o hyd i'r ateb cywir gyda chi.

## Talu am gartref gofal

Mewn amgylchiadau lle rydych chi'n ystyried mynd i gartref gofal (preswyl neu nyrsio), byddwn yn gyntaf yn ystyried a oes gennych angen cymwys am ofal a chymorth mewn cartref gofal i sicrhau bod y cartref yn briodol ar eich cyfer o gymharu ag opsiynau eraill fel gofal yn eich cartref eich hun neu dai gofal ychwanegol. Byddwn yn trafod yr opsiynau gyda chi a'ch Prif Asesydd ac yn cytuno ar Gynllun Gofal a Chymorth. Bydd hwn yn ystyried beth rydych chi am ei gyflawni (a elwir hefyd yn ganlyniadau) ac yn nodi sut rydych am i'ch anghenion gael eu diwallu.

Ni fyddwn yn darparu cyllid na chymorth ariannol arall os byddwn yn credu nad cartref gofal yw'r math mwyaf priodol o ofal ar eich cyfer chi.

## Os oes gennych chi gynilon ac asedau sydd werth mwy na £50,000

Os oes gennych chi gynilon neu asedau sydd werth mwy na £50,000, fe fydd disgwyl i chi dalu cost eich cartref gofal yn llawn. Yr hyn rydyn ni'n ei olygu â chynilon ac asedau yw cyfrifon â banc neu gymdeithas adeiladu, cyfrifon cynilon unigol (ISA), bondiau, cyfranddaliadau, buddsoddiadau, eiddo ac unrhyw gynilon ac asedau arall sydd gennych.

# Talu am eich gofal mewn cartref gofal

## Beth sy’n digwydd os bydd raid i mi dalu’r gost yn llawn?

Os oes gennych gynilon neu asedau dros £50,000 a’ch bod yn gallu trefnu eich gofal eich hun, neu eich bod wedi rhoi pŵer cyfreithiol i rywun arall eich cynrychioli, byddwn yn disgwyl i chi ffurfio cytundeb preifat gyda'ch cartref preswyl neu nyrsio dewisol.

## Pethau i’w cadw mewn cof wrth dalu’n breifat am eich cartref gofal

Os ydych chi’n gwneud eich trefniadau eich hun gyda chartref gofal, dylech sicrhau eu bod yn darparu contract i chi sy'n manylu ar rwymedigaethau a ffioedd y cartref. Mae’n bwysig bod yn siŵr pa wasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn y ffioedd, beth allai gael ei godi fel 'ychwanegion' a faint o rybudd sy'n cael ei roi os bydd y ffioedd yn cynyddu.

Os ydych chi’n talu eich ffioedd eich hun, gwnewch yn siŵr eich bod yn hawlio’r holl fudd-daliadau y mae gennych chi hawl iddynt.

Os yw’r cartref a ddewiswyd yn darparu gofal nyrsio, bydd angen asesu eich anghenion nyrsio. Y rheswm am hyn yw bod y GIG yn ariannu gofal sydd wedi’i ddarparu gan nyrs gofrestredig i bobl sydd wedi’u hasesu fel rhai sydd ag angen o’r fath. Gallwch gael mwy o wybodaeth yn yr adran isod o'r enw 'Costau gofal nyrsio'.

## Beth os ydw i’n dewis cartref sy’n ddrutach?

Mae angen i chi ystyried yn ofalus pa gartref gofal rydych chi’n ei ddewis. Mae rhai pobl yn dewis cartref drud ac yna’n defnyddio eu holl gynilon.

Os yw’r cartref rydych chi’n ei ddewis yn costio mwy na’r dewis sy’n cael ei gynnig gan y Cyngor, bydd angen i chi ddod o hyd i rywun i dalu'r gwahaniaeth neu fe allech orfod symud i gartref rhatach.

## Beth sy’n digwydd pan mae fy nghynilon a’m hasedau’n disgyn yn is na £50,000?

Os credwch chi bod gwerth eich cynilon neu’ch asedau’n debygol o ddisgyn yn is na £50,000, dylech gysylltu â ni i drefnu asesiad ariannol llawn. Mae'r cyfrifiadau rydyn ni’n eu defnyddio ar gyfer yr asesiad ariannol i’w gweld isod.

# Talu am eich gofal mewn cartref gofal

Os nad ydych eisoes wedi derbyn un, bydd hefyd angen i ni gwblhau asesiad o anghenion i sicrhau mai'r cartref gofal yw'r gofal mwyaf priodol i chi.

Gan y gall y prosesau hyn gymryd peth amser ac na allwn ond eich helpu gyda chyllid o'r adeg y byddwch yn cysylltu â ni gyntaf, rydym yn argymell i chi gysylltu â ni ar 0300 456 1000 pan nad oes gennych ond digon o gynilon ac asedau ar ôl i dalu am ffioedd eich cartref gofal am y tri mis nesaf.

## Beth sy'n digwydd os oes gennyf gynilon ac asedau sydd werth llai £50,000?

Os oes gennych chi gynilon ac asedau sydd werth llai na £50,000, bydd angen i ni gwblhau asesiad ariannol.

## Sut mae'r asesiad ariannol yn cael ei gynnal?

Bydd eich Prif Asesydd yn rhoi ffurflen Cymorth Ariannol i chi ei chwblhau. Bydd angen i chi ei dychwelyd at y Tîm Asesiadau Ariannol (manylion ar gefn y llyfryn hwn), ynghyd â'r dogfennau ategol.

Pan mae'r holl wybodaeth wedi'i darparu a'r asesiad wedi'i gwblhau, bydd y tîm yn ysgrifennu atoch ac yn dweud wrthoch chi beth yw'r canlyniad.

Bydd disgwyl i chi dalu'ch cyfraniad yn uniongyrchol i'r cartref ac o'r dyddiad y symudoch chi i'r cartref.

Bydd disgwyl i chi neilltuo eich arian tan fyddwn yn medru cadarnhau faint fydd swm eich cyfraniad.

## Cyfrifo ar gyfer asesiad preswyl

Mae'r enghraifft syml ganlynol yn dangos egwyddorion sut rydyn ni'n cyfrifo eich asesiad ariannol preswyl.

Cynilon ac asedau (yn cynnwys eiddo) + incwm - isafswm incwm = cyfraniad asesedig.

# Talu am eich gofal mewn cartref gofal

## Cynilon ac asedau

Rydyn ni’n ystyried y rhan fwyaf o fathau o gynilon ac asedau, yr eiddo sydd gennych chi, a allai fod yn eiddo rydych chi’n byw ynddo, ac unrhyw eiddo arall sydd gennych.

## Incwm

Byddwn yn cynnwys bron bob budd-daliad ac incwm arall fel pensiynau galwedigaethol, blwydd-daliadau ac incwm o eiddo rhent.

Fodd bynnag, efallai y byddwn yn diystyru mathau penodol o incwm neu’n eu diystyru’n rhannol.

Er enghraifft, rydyn ni’n diystyru elfen symudedd y Lwfans Byw i Bobl Anabl/Taliadau Annibyniaeth Bersonol o bob asesiad.

## Isafswm incwm

Mae’r isafswm incwm yn swm sy’n cael ei bennu gan Lywodraeth Cymru a dyma’r isafswm y mae’n rhaid ei adael i chi os ydych mewn cartref gofal yn barhaol.

Mae Llywodraeth Cymru fel arfer yn cynyddu’r swm hwn bob blwyddyn ym mis Ebrill.

Os ydych chi'n gyfrifol am ddibynyddion nad ydynt yn byw yn yr un cartref gofal neu sydd â chostau parhaus nad ydynt yn gysylltiedig â chostau eu gofal mewn cartref, efallai y byddwn, fel eithriad, yn gallu cynyddu eich isafswm incwm.

Cysylltwch â’r Tim Asesiadau Ariannol am fwy o wybodaeth (mae’r manylion cyswllt i’w cael ar ddiwedd y ddogfen hon).

# Talu am eich gofal mewn cartref gofal

## Beth os ydw i’n berchen ar eiddo?

Os yw eich cartref yn eiddo i chi, bydd yn cael ei gynnwys yn eich asesiad ariannol. Fodd bynnag, ni fydd y cartref yn cael ei ystyried os oes un o’r unigolion canlynol hefyd yn byw yn y cartref, ac y byddant yn parhau i fyw yno ar ôl i chi symud i gartref gofal:

- gŵr, gwraig neu bartner sifil;
- perthynas agos dros 60 oed;
- plentyn dibynnol;
- perthynas sy’n anabl neu'n analluog.

### Diystyru eiddo am ddeuddeg wythnos

Os byddwn yn ystyried eich cartref, byddwn yn anwybyddu ei werth yn ystod 12 wythnos cyntaf eich arhosiad parhaol mewn cartref gofal. Os ydych eisoes wedi bod yn byw yn barhaol mewn cartref gofal cyn i'r Cyngor ddechrau helpu, efallai na fydd gennych hawl i'r diystyriad hwn, neu ran ohono yn unig yn dibynnu ar hyd eich arhosiad. Cyfeirir at hyn hefyd fel diystyru eiddo am 12 wythnos. Nod hyn yw rhoi amser i chi benderfynu beth rydych am ei wneud gyda'ch cyn gartref.

Yn ystod y cyfnod hwn, bydd disgwyl i chi gyfrannu tuag at gost eich gofal o’ch incwm ac o asedau eraill.

Bydd hefyd angen i chi barhau i gynnal a chadw’r eiddo a thalu am unrhyw gostau sy'n deillio ohono.

### Y Cynllun Taliadau Gohiriedig

Mae’r Cynllun Taliadau Gohiriedig wedi’i gynllunio i’ch helpu chi os ydych wedi’ch asesu fel un sy’n gorfod talu costau llawn eich gofal preswyl ond nad ydych yn gallu fforddio talu’r tâl wythnosol llawn gan fod eich cyfalaf ynghlwm yn eich cartref.

I bob pwrpas, mae’r cynllun yn cynnig benthyciad i chi gan Gyngor Sir Ddinbych gan ddefnyddio eich cartref fel gwarant. Nid yw’n gweithio'n union yr un fath â benthyciad arferol – nid yw’r Cyngor yn rhoi swm penodol o arian i chi pan fyddwch yn ymuno â’r

cynllun. Yn hytrach, mae’n talu cyfran wedi’i chytuno o’ch costau gofal a chymorth wythnosol cyhyd ag sydd ei angen.

Byddwn yn asesu’ch gallu i dalu cyfraniad wythnosol tuag at eich gofal o'ch incwm a'ch cynilon eraill gan ddefnyddio’r cyfrifiad asesu uchod. Byddwn yn gofyn i chi dalu’r cyfraniad hwn bob mis yn uniongyrchol i’r cartref gofal.

Y gwahaniaeth rhwng eich 'cyfraniad wythnosol asesedig' a gwir gost eich gofal mewn cartref yw'r 'taliad gohiriedig'. Mae’r taliad gohiriedig yn cronni fel dyled, sy’n cael ei thalu wrth werthu eich tŷ. Os byddwch yn dewis peidio â gwerthu’ch cartref yn ystod eich bywyd, rhaid i’r ddyled gael ei thalu i’r Cyngor o’ch ystâd ar ôl i chi farw.

## Y Cytundeb Taliadau Gohiriedig

Os byddwch yn penderfynu defnyddio’r Cynllun Taliadau Gohiriedig, bydd yn rhaid i chi ffurfio cytundeb cyfreithiol gyda’r Cyngor drwy lofnodi dogfen gytundeb o’r enw’r Cytundeb Taliadau Gohiriedig. Mae’r Cyngor wedyn yn gosod ‘pridiant cyfreithiol’ ar eich eiddo i ddiogelu'r benthyciad.

Gweler ein taflen ‘Y Cynllun Taliadau Gohiriedig’ os hoffech gael gwybod mwy.

## A oes unrhyw gostau ynghlwm â Chytundeb Taliadau Gohiriedig?

Mae costau gweinyddu i dalu am gostau sefydlu a chynnal y cytundeb cyhyd ag y bo angen. Efallai y bydd angen talu costau eraill hefyd, fel costau cyfreithiol a ffioedd cofrestru tir.

Bydd llog ar y benthyciad yn yr un modd ag y codir llog ar fenthyciad arferol gan fanc. Mae’r llog mae’r Cyngor yn ei godi’n dilyn canllawiau gan Lywodraeth Cymru, sy’n cael eu hadolygu’n rheolaidd.

Bydd y llog yn cael ei gompowndio.

# Budd-daliadau a ffioedd cartref gofal

Gall fod effaith ar eich budd-daliadau, gan ddibynnu ar ganlyniad yr asesiad ariannol. Os byddwch yn ariannu eich gofal eich hun, bydd gennych hawl o hyd i'ch budd-daliadau; gall y rhain gyfrannu at dalu ffioedd.

# Talu am eich gofal mewn cartref gofal

Os byddwn ni'n talu am eich gofal mewn cartref gofal, efallai na fydd gennych hawl i dderbyn eich holl fudd-daliadau.

Bydd unrhyw fudd-daliadau rydych yn parhau i’w derbyn yn cael eu cynnwys yn asesiad ariannol y Cyngor o faint y bydd disgwyl i chi ei gyfrannu tuag at gost eich gofal.

Os hoffech fwy o wybodaeth ynglŷn â sut y gallai mynd i gartref gofal effeithio ar eich budd-daliadau, dylech gysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau ar 0345 606 0275, neu 0345 606 0265 ar gyfer y llinell Saesneg.

## Ffioedd atodol

Ffi atodol yw’r gwahaniaeth rhwng cost y gofal mae’r Cyngor wedi’i bennu fel gofal a fydd yn diwallu eich anghenion cymwys a’ch llety dewisol.

Er enghraifft:

Mae’r Cyngor yn asesu y bydd eich anghenion cymwys yn cael eu diwallu mewn cartref sy’n costio £507 yr wythnos. Rydych chi’n dymuno dewis cartref gofal sy’n costio £525 yr wythnos. Gan fod eich cartref gofal dewisol yn costio mwy na’r dewis mae'r Cyngor wedi'i ddarparu, bydd angen talu ffi atodol o £18 yr wythnos.

Bydd angen talu unrhyw ffi atodol ar ben y swm rydych wedi’ch asesu i’w gyfrannu tuag at gost eich gofal.

### Talu’r ffi atodol

Rhaid i’r ffi gael ei thalu gan rywun ar wahân i chi a ni; fel arfer, aelod o’r teulu, ffrind neu sefydliad. Ni allwch ond talu’r ffi atodol eich hun os ydych yn berchen ar eiddo ac:

- oherwydd eich asesiad ariannol, eich bod yn gymwys i ni ddiystyru eich eiddo am 12 wythnos;
- eich bod wedi ffurfio cytundeb taliadau gohiriedig gyda ni; neu
- eich bod yn derbyn incwm sydd wedi’i ddiystyru ar ôl eich asesu.

# Talu am eich gofal mewn cartref gofal

Os na fyddwch yn gallu parhau i dalu ffi atodol, efallai y bydd yn rhaid i chi symud i gartref gofal rhatach. Er mwyn osgoi hyn, mae'n bwysig eich bod yn ystyried a fyddwch yn gallu parhau i dalu'r ffioedd mewn cartref drutach gyhyd â bo angen.

Os oes rhywun ar wahân i chi'n cytuno i dalu'r ffi atodol (sy'n cael ei alw'n Daliad Atodol Trydydd Parti), mae goblygiadau y mae angen iddynt eu deall:

- Er mwyn sefydlu Taliad Atodol Trydydd Parti, mae'n rhaid i rywun arall - fel aelod(au) o'r teulu, ffrind, cyflogwr, sefydliad neu elusen – allu a bod yn fodlon talu a gallu dangos hyn i'r Cyngor.

- Dylent geisio cyngor cyfreithiol annibynnol er mwyn deall y goblygiadau'n llawn

- Os yw'r trydydd parti'n sefydliad, byddwn angen llythyr gan gynrychiolydd cyfreithiol y sefydliad yn cadarnhau bod gan y sefydliad y modd a'r gallu i barhau i dalu am y cyfnod gofynnol.

## Cyngor ariannol annibynnol

Mae'n bwysig eich bod yn cael cyngor ariannol annibynnol i'ch helpu i wneud y penderfyniad cywir ar ariannu eich gofal.

Mae gan wefan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol lawer o gyngor a gwybodaeth am ddod o hyd i gyngor ariannol, gan gynnwys;

- sut i ddewis ymgynghorydd addas
- beth i'w ddisgwyl ganddynt
- y gwahaniaeth rhwng ymgynghorwyr annibynnol a chyfyngedig
- opsiynau codi tâl

Dylai pob ymgynghorydd fod wedi'i achredu gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Mae gwefan My Care My Home yn cynnig cyngor i unigolion a'u teuluoedd am gostau gofal a'r opsiynau ariannu sydd ar gael iddynt. Maent yn cynnig cyngor dros y ffôn ac wyneb yn wyneb drwy ymweld â'ch cartref, wedi'i gynllunio i helpu pobl i ddod o hyd i gartref gofal addas. Mae'r gwasanaeth llawn, y mae angen talu am beth ohono, yn cael ei egluro'n fanwl ar eu gwefan neu ffoniwch eu rhif ffôn am ddim ar 0800 731 8470.

Mae cyngor am ddim hefyd ar gael gan y gwefan Age UK ac y gwefan Saga.

# Talu am eich gofal mewn cartref gofal

## Costau gofal nyrsio

### Gofal Nyrsio wedi’i ariannu

Y GIG sy’n gyfrifol am ddarparu gofal nyrsio am ddim (wedi’i ddarparu gan nyrs gofrestredig) mewn cartref gofal nyrsio sy’n cael ei dalu i’r cartref nyrsio ar ben y ffioedd cartref gofal. Os yw eich anghenion yn cael eu diwallu mewn cartref gofal nyrsio a'ch bod yn ariannu eich gofal eich hun drwy dalu'r holl ffioedd cartref gofal, bydd y cartref gofal yn gwneud cais am yr hyn a elwir yn Ofal Nyrsio wedi’i Ariannu yn uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd Lleol.

Pan mae’r GIG wedi cadarnhau bod Gofal Nyrsio wedi’i Ariannu’n addas i chi, bydd yn cyfrannu at dalu am elfen nyrsio eich gofal. Mae hwn yn swm wythnosol safonol sy'n cael ei bennu gan y Bwrdd Iechyd a'i adolygu bob blwyddyn.

### Gofal iechyd parhaus

Mewn rhai achosion, fe allech fod â hawl i gyllid gan y GIG a fydd yn talu am eich gofal yn llawn, p'un a yw yn eich cartref eich hun neu mewn cartref gofal – gelwir hyn yn gyllid Gofal Iechyd Parhaus y GIG. Gall cyllid Gofal Iechyd Parhaus gael ei roi am gyfnodau penodol neu'n ddiderfyn.

### Ffioedd gofal a'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Os ydych wedi’ch cadw yn yr ysbyty am asesiad neu driniaeth dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, y GIG sy'n gyfrifol am unrhyw ofal cysylltiedig y byddwch ei angen ar ôl hynny. Gall hyn gynnwys unrhyw ofal rydych chi ei angen yn eich cartref eich hun neu mewn cartref gofal.

# Talu am eich gofal mewn cartref gofal

## Cysylltiadau defnyddiol

### Gwybodaeth cyffredinol

I gael gwybod mwy am y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion a Digartrefedd neu fanylion cyswllt eiriolaeth, cysylltwch â'r Un Pwynt Mynediad;

- Ffoniwch 0300 456 1000
- E-bost unpwyntmynediad@sirddinbych.gov.uk
- cyflwyno ymholiad drwy'r wefan Cyngor Sir Ddinbych

### Gwybodaeth am y cyfrifiad asesiad ariannol a gwybodaeth am daliadau

I gael gwybodaeth am y cyfrifiad asesiad ariannol a gwybodaeth am daliadau, cysylltwch â;

- Ysgrifennwch atom: Y Tîm Cyllid, Incwm ac Asesu, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 1AZ
- Ffoniwch Y Rhyl: 01824 706392 neu ffoniwch Rhuthun: 01824 712403
- Neu anfonwch e-bost at Tim.SAC@sirddinbych.gov.uk

### Gwybodaeth a chyngor am hawlio budd-daliadau y gallech fod â hawl iddynt

I gael gwybodaeth a chyngor am hawlio budd-daliadau y gallech fod â hawl iddynt, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cyngor ar Bopeth. Maent yn darparu gwasanaeth cynghori cyfrinachol, diduedd ac annibynnol am ddim ar ystod eang o bynciau yn ogystal â chyngor arbenigol ar ddyled a budd-daliadau lles.

Mae oriau agor y swyddfeydd yn amrywio ar draws Sir Ddinbych. Ffoniwch neu ewch i'r wefan am fanylion;

- Rhif ffôn y llinell gyngor 03444 77 20 20
- Gwefan Cyngor ar bopeth Sir Ddinbych